# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mai 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Robert G Parry OBE (Is-Gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr John Griffith, D R Hughes, Vaughan Hughes, Jeffrey M.Evans a J A Roberts |
| **WRTH LAW:** | Y Prif Weithredwr,<br>Y Darpar Brif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn – Adnoddau Dynol,<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Victor Hughes, Carwyn Jones a H E Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2015.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

**"Dan Adran 100 (A)(4) Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gyrru'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y tebygrwydd y câi gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf eithriad ohoni fel y diffinnir y wybodaeth yn y Ddeddf ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 ADOLYGU'R UWCH DÎM ARWEINYDDIAETH**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cyflwyno adroddiad ar 15 Rhagfyr 2014 i'r Pwyllgor Gwaith, a hynny ar gais Arweinydd y Cyngor, yn rhoi nifer o opsiynau i'w hystyried ar gyfer ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Gwaith i restru gostyngiad yng nghapasiti rheolaeth lefel uwch y Cyngor ymhlith yr arbedion effeithlonrwydd yn y pecyn cynigion ar gyfer cyllideb 2015/16.

Nodwyd bod y Pwyllgor Gwaith wedi argymell Opsiwn 4 i'r Cyngor Sir fel yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer cwrdd â'r amcanion ac fel un y byddai modd ei gyflawni, gyda golwg ar gomisiynu gwaith manylach i ddatblygu'r opsiwn ar gyfer ymgynghori gyda staff. Yn y cyfarfod o'r Cyngor llawn a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2015, penderfynwyd mai Opsiwn 4 oedd yr opsiwn a oedd yn cael ei ffafrio. Cynhaliwyd proses ymgynghori gyda staff trwy'r Adran Adnoddau Dynol rhwng 6 Chwefror a 20 Chwefror. Roedd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghori wedi ei amlinellu yn yr adroddiad.

Fel y Prif Weithredwr a oedd newydd gael ei benodi, ac a fydd yn cychwyn yn ei swydd ar 1 Mehefin 2015, estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Dr. Gwynne Jones annerch y pwyllgor mewn perthynas â'r argymhellion yn yr adroddiad ac i fynegi ei safbwynt ar ailstrwythuro'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Rhoddodd y Darpar Brif Weithredwr drosolwg o'r disgwyliadau corfforaethol y bydd angen rhoi sylw iddynt ynghyd â'r cynigion mewn perthynas â'r strwythur a ffefrir ar gyfer yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth i'r dyfodol.

Yn dilyn trafodaethau **PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor Sir llawn:-**

- **Datblygu strwythur yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn seiliedig ar ddwy swydd newydd , sef swyddi Prif Weithredwyr Cynorthwyol;**
- **Dileu'r strwythur cyfredol, sef Dirprwy Brif Weithredwr a thri Chyfarwyddwr Corfforaethol unwaith y bydd y strwythur newydd yn ei le a'r penodiadau wedi eu gwneud;**
- **Penodi Grŵp Hay i ddatblygu a gwerthuso disgrifiadau swyddi a manylebau person ar gyfer y ddwy swydd Prif Weithredwr Cynorthwyol, gan aseinio cyflog priodol ar gyfer y swyddi;**
- **Awdurdodi'r Prif Weithredwr i 'gymeradwyo'r' disgrifiadau swydd a'r manylebau person terfynol, ynghyd â'r cyflog, gyda'r cyfyngiad y dylai'r cyflog fod rhwng £85,000 a £95,000 ac yn seiliedig ar gyngor allanol;**
- **Bod y swyddi'n cael eu hysbysebu'n fewnol ac yn allanol ar yr un pryd, yn amodol ar gyngor cyfreithiol.**
- **Bod yr elfennau statudol sy'n gysylltiedig gydag Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael sylw unwaith y bydd y broses benodi wedi ei chwblhau.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**